**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Gorffennaf 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar y gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn: 2023-24, yn amlinellu 12 cwestiwn ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Amgaeir ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau hynny.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:
Gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn: 2023-24**

## Costau Byw

### Parodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer heriau costau byw a fydd yn codi'r gaeaf hwn ac unrhyw gamau ychwanegol y gallech eu cymryd i helpu'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed?

- Sefydlwyd Is-bwyllgor Cabinet ar Gostau Byw i ddarparu cyfeiriad strategol mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw. Caiff ei waith ei lywio gan dystiolaeth arbenigwyr, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n cael trafferth gyda chostau cynyddol, gan gynnwys lleisiau'r rheini sydd â phrofiad byw personol, i helpu i lywio ein paratoadau ar gyfer y gaeaf.

- Rydym yn parhau i gefnogi aelwydydd difreintiedig yng Nghymru i liniaru effaith yr argyfwng costau byw drwy raglenni sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i liniaru pwysau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys: y Gronfa Cymorth Dewisol; camau gweithredu i wneud y mwyaf o incwm, gan gynnwys ein hymgyrch Yma i Helpu; a mentrau i gyflawni'r cyflog cymdeithasol yng Nghymru fel ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n helpu i gadw arian ym mhocedi pobl. Yn ystod 2022-23 a 2023-24, roedd y gefnogaeth hon werth mwy na £3.3bn.

- Mae ein datganiad polisi ar y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn nodi ein hymrwymiad hirdymor i gyflawni sero net mewn ffordd gyfiawn – trwy'r ddau amcan o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd.

- Roedd llawer o'r mentrau a oedd wedi helpu pobl â phwysau costau byw yn 2022-23, fel Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru, dim ond yn bosibl oherwydd bod cyllid sylweddol wedi'i ddyrannu drwy gyllideb 2022-23. Roeddem wedi ailbwrpasu ein cyllidebau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer cartrefi a gafodd eu taro galetaf gan yr argyfwng.

- Yn anffodus, nid yw ein dyraniad cyllid gan Lywodraeth y DU yn ddigonol i'n galluogi i ailgynnal llawer o'r cynlluniau hyn yn 2023-24. Yn ogystal, mae ein cyllidebau yn werth cryn dipyn yn llai na phan gyhoeddwyd ein cynlluniau yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2021.

- Rydym yn ystyried pa gamau ychwanegol y gellir eu cymryd y gaeaf hwn yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol heriol yr ydym ynddi. Bydd ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw mewn perthynas â beth y gallwn ei wneud i gael yr effaith fwyaf.

- Yn y tymor hwy, mae ein Strategaeth Tlodi Plant ddrafft, ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd, yn nodi ein hamcanion ar gyfer gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'r Strategaeth ddrafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a byddem yn croesawu eich barn.

**A yw’r Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw wedi gwneud ei argymhellion i Lywodraeth Cymru eto? Os felly, pryd y gallwn ddisgwyl iddynt gael eu rhannu â’r Pwyllgor (gweler hefyd yr ymateb i’r adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24).**

- I ddechrau, rhagwelwyd y byddai'r Grŵp Arbenigol yn adrodd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw ym mis Mehefin. Cyfarfu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Prif Weinidog â'r Grŵp Arbenigol ym mis Mai 2023 i drafod y cynnydd. Yn y cyfarfod hwnnw gofynnodd y Grŵp Arbenigol am amser ychwanegol i lunio eu hargymhellion.

- Disgwylir y bydd y Grŵp Arbenigol yn cyflwyno eu hargymhellion mewn adroddiad erbyn diwedd Gorffennaf 2023.

- Bydd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw yn ystyried yr adroddiad hwnnw yn ffurfiol yn dilyn y toriad.

**A fyddech cystal a darparu manylion monitro’r gyllideb ar alw’r Gronfa Cymorth Dewisol (neu’r DAF)? A yw’r dyraniadau a wnaed yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 wedi’u diwygio mewn ymateb i ganlyniad y gwaith monitro hwnnw?**

- Mae'r ffigurau misol yn dangos bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn gweithredu o fewn y gyllideb. Y gwariant *targed* chwarterol yw £8.5m, ac ar gyfer y chwarter cyntaf (Ebrill - Mehefin 2023) mae ffigurau *gwirioneddol* yn dangos gwariant o £8.1m. Fodd bynnag, mae swyddogion yn ymwybodol bod y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol yn debygol iawn o gynyddu yn ystod yr hydref/gaeaf yn sgil disgwyl y bydd costau tanwydd yn codi. Mae swyddogion yn monitro gwariant y Gronfa yn agos iawn. Nid yw dyraniadau'r Gronfa Cymorth Dewisol a wnaed yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 wedi'u diwygio.

**A yw gwerthusiad y Gronfa Gynghori Sengl wedi'i gwblhau, ac os felly a ellir ei rannu â'r Pwyllgor?**

- Mae'r gwerthusiad o'r Gronfa Gynghori Sengl yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad yn defnyddio dulliau cymysg. Trwy ddulliau meintiol bydd yr ymchwil yn penderfynu a yw model cyflawni cydweithredol y Gronfa Gynghori Sengl wedi cyrraedd grwpiau mwy difreintiedig ac ymylol na ffrydiau ariannu gwasanaeth cynghori hanesyddol Llywodraeth Cymru, ac a yw pobl â nifer o broblemau lles yn cael eu helpu.

- Bydd y dulliau ansoddol yn cynnig canfyddiadau gwerthfawr gan bobl sydd wedi cael mynediad at wasanaethau’r Gronfa Gynghori Sengl. Er enghraifft, eu profiadau o ddefnyddio’r gwasanaeth ac effeithiau gwneud hynny, h.y. a ddaethon nhw o hyd i'r ateb i'w problemau, a ydyn nhw wedi magu mwy o hyder yn eu gallu eu hunain i ddelio â phroblemau lles yn y dyfodol, ac ati. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau yn yr hydref, a byddaf yn rhannu'r canfyddiadau â'r Pwyllgor.

**Yn unol ag argymhelliad 10 yn ein hadroddiad Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol, ac argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, pryd rydych chi'n disgwyl y byddwch yn cyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy'n defnyddio'r Cynllun Talebau Tanwydd yn erbyn y targedau a osodwyd pan lansiwyd y cynllun, mewn perthynas â mesuryddion rhagdalu ac aelwydydd oddi ar y grid?**

- Fel y nodir yn ein hymateb i argymhelliad 10 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, *sef Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol*, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd y Sefydliad Banc Tanwydd wedi dosbarthu 19,561 o dalebau er mwyn cefnogi aelwydydd na allent fforddio gwneud taliadau ychwanegol i'w mesuryddion rhagdalu. Cynyddodd y dyraniadau o dalebau tanwydd yn sylweddol wrth i rwydwaith atgyfeirio Cymru ddatblygu. Ac fe gynyddodd y rhwydwaith o fod yn un â chwe phartner ar yr adeg pan ddyrannwyd yr arian, i un â dros 100 o bartneriaid erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, defnyddiwyd gweddill yr arian i brynu talebau ar gyfer mesuryddion rhagdalu a gaiff eu dosbarthu yng Nghymru drwy gydol 2023 yn ôl y galw. Mae'r nifer a ddosbarthwyd ers i'r prosiect ddechrau bellach yn 25,202. Ni fyddwn yn gwybod y ffigur terfynol ar gyfer y Cynllun Talebau Tanwydd tan 2024.

- Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd y gallai'r Sefydliad Banc Tanwydd gynnal peilot i brynu blancedi cynnes fel dull amgen o gefnogi pobl mewn tlodi tanwydd. Nod y cynllun peilot oedd cynhesu'r unigolyn ac nid y cartref, ac mae 968 o flancedi cynnes wedi'u dyrannu i aelwydydd Cymru.

- Erbyn diwedd mis Mawrth, cafodd 184 o aelwydydd eraill gymorth i brynu tanwydd oddi ar y grid. Mae'r Sefydliad Banc Tanwydd yn parhau i ddarparu olew ychwanegol i'r rheini mewn argyfwng ledled Cymru sydd â thanciau olew. A hynny, yn rhinwedd ei rôl fel elusen. Ond mae'r galw yn llai ar hyn o bryd oherwydd tywydd yr haf a'r gostyngiad tymhorol mewn prisiau olew.

- Hyd yma, mae'r ymyriadau hyn wedi cefnogi 63,614 o bobl ac y mae 43% ohonynt yn blant.

**<u>Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a menywod mudol</u>**

**Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 3 o’n hadroddiad Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: menywod mudol i gefnogi menywod mudol sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus, ac rydym yn croesawu eich datganiad ar 4 Gorffennaf 2023 sy’n cadarnhau cynllun peilot y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy’n Ddioddefwyr Trais.**

**Derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, y dylai egluro sut caiff y gronfa argyfwng ei hariannu. Rydym yn deall y bydd adnoddau’n cael eu dargyfeirio o’r gyllideb trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) bresennol.**

**A fyddech cystal â chadarnhau faint sydd wedi’i ddyrannu i'r gronfa a’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pennu’r ffigur hwnnw. Pa asesiad, os yn berthnasol, y mae Llywodraeth Cymru wedi’i gynnal i asesu effaith dargyfeirio adnoddau o wasanaethau a gweithgarwch VAWDASV presennol. Fel arall, a fyddech cystal â rhoi manylion o ble y gwnaed y toriadau.**

- Mae’r cynllun peilot i gefnogi menywod mudol sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus wedi'i ariannu ar sail fforddiadwy, gan ddefnyddio £150k o'r gyllideb VAWDASV bresennol. Felly ni fu angen dargyfeirio cyllid o weithgareddau a gwasanaethau presennol eraill.

- Cytunwyd ar y gyllideb ar gyfer y peilot yn dilyn asesiad cynhwysfawr o'r data sydd ar gael mewn perthynas ag angen. Roedd swyddogion wedi gallu defnyddio adborth a dysgu o'r cynllun Cymorth i Fudwyr sy’n Ddioddefwyr Trais a amlygodd, ymhlith pethau eraill, a oedd y cyllid yn ddigonol, er enghraifft i dalu am gostau llety lloches. Yn sgil hynny, roedd gan swyddogion well syniad o faint o gyllid oedd ei angen i gyflawni elfennau hanfodol y cynllun, a datblygu opsiynau ar gyfer y cynllun peilot cychwynnol yn ystod y flwyddyn.

- Mae'r cynllun peilot wedi ystyried materion fforddiadwyedd ac wedi cydnabod hefyd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wrthi'n cynnal ymchwil yn y maes hwn. Bydd y cynllun peilot, er nad yw'n llenwi'r holl fylchau a nodwyd, yn gwneud cryn dipyn tuag at wneud hynny ac yn darparu tystiolaeth ychwanegol o’r buddion a'r angen sy'n weddill, i lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu o waith ymchwil ICC pan fydd wedi'i gwblhau, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth gamau gweithredu gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol mewn perthynas â'r cynllun Cymorth i Fudwyr sy’n Ddioddefwyr Trais.

- Ar sail hyn, dyrannwyd £150k i BAWSO fel grant i gynnal y cynllun peilot yn ystod 2023/23, er mwyn ceisio gwneud y canlynol:

    - Ychwanegu at gyllid cynhaliaeth i ddioddefwyr o dan y cynllun Cymorth i Fudwyr sy’n Ddioddefwyr Trais fel ei fod yn cyfateb i swm y cymorth ariannol sydd ar gael o dan Gonsesiwn Diymgeledd Trais Domestig (DDVC).

- o Rhoi cymhorthdal o gyllid ychwanegol i ymestyn hyd y cyfnod y gall goroeswyr aros mewn llety â chymorth tra byddant yn ceisio cael cymorth cyfreithiol a thra bo statws mwy parhaol yn cael ei brosesu (tua 4 wythnos ar gyfer pob dioddefwr).
- o Darparu cyllid ychwanegol os bydd angen (os nad yw'n gymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn gymwys i gael llety lloches (e.e. dioddefwyr â thri neu fwy o blant).
- o Darparu cyllid i gefnogi hyd at 15 o ddioddefwyr/teuluoedd ychwanegol a chynnwys trefniant iddynt gael aros yn eu cartref eu hunain os bydd modd symud y cyflawnwr.
- o Darparu tua 5% o gostau ychwanegol ar gyfer llety ychwanegol mewn perthynas ag achosion eithriadol sydd angen llety am gyfnodau hirach na'r amserlenni safonol.

**<u>Cydraddoldeb a hawliau dynol</u>**

**Nodwch effaith y gostyngiad yng nghyllid yr UE ar sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn benodol Chwarae Teg a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Pa asesiad a wnaed o'r effaith ar gyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb. Pa ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu ffrydiau ariannu newydd i lenwi'r bwlch yng nghyllid yr UE?**

- Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn rheoli tua £5/6m y flwyddyn mewn grantiau i sefydliadau drwy'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol. Mae colli'r rhaglenni hyn wedi arwain at golli tua 30 o rolau, sef staff sy'n gweithio'n gyfan gwbl ar raglenni a ariennir gan yr UE yn ogystal â staff eraill o golli cymorth ar gyfer costau gorbenion. Mae hyn wedi golygu bod CGGC wedi colli nifer o staff profiadol iawn o'r sector cyflogadwyedd a roddodd gyngor ar ystod o bynciau megis llywodraethu, caffael, rheolaethau ariannol a monitro a gwerthuso, yn ogystal â chymorth grant.

- Yn fwy cyffredinol, mae CGGC hefyd wedi bod yn rhan annatod o gefnogi'r trydydd Sector i gael cymorth ariannol yr UE, gan sicrhau bod llais a barn y trydydd Sector yn rhan o weithdrefnau llywodraethu cronfeydd yr UE. Rydym yn ymwybodol nad oes unrhyw gronfeydd, rolau na threfniadau llywodraethu cyfatebol yn bodoli ar hyn o bryd o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

<u>Y cefndir</u>

- O dan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-2006, amcangyfrifwyd bod y trydydd sector wedi manteisio ar dros £224 miliwn, ac yng nghylch cyllido 2007-2014 dyfarnwyd dros £105 miliwn i'r sector hwnnw. O dan raglenni presennol 2014-2020, mae'r trydydd sector wedi arwain mentrau sydd gwerth dros £138 miliwn.

- Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi cymryd rhan sylweddol mewn rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau a ariennir gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, a helpodd sefydliadau gwirfoddol i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf ymylol a difreintiedig mewn cymdeithas ar eu taith tuag at gael gwaith. Ers 2015 dyfarnodd y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol dros £30 miliwn mewn cyllid grant i fwy na 180 o

sefydliadau, gan gefnogi dros 23,000 o bobl ddifreintiedig i symud i mewn i waith neu'n nes ato. Cyfrifwyd bod 'adenillion cymdeithasol o fuddsoddi' o oddeutu £3.37 o fudd yn cael ei gynhyrchu am bob £1 a wariwyd.

- Dros y ddau ddegawd diwethaf mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ysgogi twf a datblygiad y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru gyda chymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Yn y rhaglen ariannu gyfredol, dyfarnodd Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol CGGC a Chronfa Datblygu Asedau Cymunedol £4.8 miliwn ar draws 59 o fusnesau cymdeithasol a greodd 282 o swyddi.

## Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

**Fel y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a allwch gadarnhau a oes unrhyw gostau wedi'u datblygu ar gyfer cynllun peilot y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig, gan gynnwys yr effaith ariannol ar wasanaethau cyhoeddus lleol?**

- Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ysgwyddo cost cynllun peilot y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig. Bydd y 12 o breswylwyr benywaidd yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus lleol tra byddant yn y Ganolfan. Gan y bydd y menywod eisoes yn byw yn yr ardal leol, nid ydym yn disgwyl i hyn gael effaith ar gostau. Bydd unrhyw wasanaethau ychwanegol a ddarperir yn cael eu hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**A allwch chi gadarnhad p'un a oes ffrwd ariannu gynaliadwy ar gyfer canolfannau menywod bellach yn ei lle?**

- Blaenoriaeth allweddol ar gyfer cam nesaf y gwaith ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yw datblygu dull cadarn o ymdrin â chanolfannau dibreswyl i fenywod ledled Cymru. Mae canolfannau fel Canolfan Merched Gogledd Cymru yn y Rhyl a Chanolfan Ymddiriedolaeth Nelson yng Nghaerdydd yn darparu ystod werthfawr o wasanaethau, gan gynnwys cymorth i reoli a goresgyn camddefnyddio sylweddau, cymorth gofal plant, eitemau ar gyfer y mislif a help gyda chostau byw. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried gwahanol fodelau o ganolfannau i fenywod i ddeall y dull gorau ar gyfer Cymru. A bydd y gwaith hwnnw'n cael ei lywio gan ganfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor i brofiad menywod o'r system gyfiawnder.

**A yw'r tendr ar gyfer Manyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod newydd, a grybwyllwyd mewn ymateb i argymhelliad 5, bellach wedi'i gyhoeddi?**

- Mae'r tendr ar gyfer Manyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod wedi cyrraedd cam terfynol y broses, ac yn cael ei wirio a'i gymeradwyo ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r tendr gael ei gyhoeddi dros yr haf.

**Gwella’r gyllideb**

**A fyddech cystal â rhoi diweddariad ar argymhelliad 10 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24? A allwch nodi pa gamau a gymerwyd i ddatblygu eich gwaith ar atal?**

- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod atal yn rhan annatod o’r broses o bennu cyllidebau. Mae'r gwaith ataliol yr ydym wedi'i wneud yn cael ei ystyried yn rhan o waith ehangach Cynllun Gwella’r Gyllideb sy'n cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi'n flynyddol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd mewn perthynas ag atal.

- Drwy ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch gwella prosesau'r gyllideb. Ym mis Ionawr 2023, roeddem wedi rhoi cyflwyniad ar y rhaglen atal i randdeiliaid y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, fel y gallai rhanddeiliaid ddeall y maes cymhleth hwn yn well. Mae atal yn rhan allweddol o gynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar gyfer 2023 ac mae is-grŵp wedi'i sefydlu i edrych yn benodol ar sut y gallwn ofalu bod atal yn rhan annatod o’n proses ar gyfer y gyllideb. Mae'r broses hon yn parhau i fynd rhagddi, ac fe fydd yn cael ei chwblhau fis nesaf.

- Rydym hefyd yn ystyried pa gamau pellach y gallem eu cymryd fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb 2024-25.

- Byddwn yn darparu diweddariad pellach yn ein Cynllun Gwella’r Gyllideb yn unol â'n harfer sefydlog pan gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25.

**Gofynnwn i chi ailystyried eich safbwynt ar argymhellion 11 a 12 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24, a wrthodwyd ar y pryd. Rydym yn pryderu nad yw cyhoeddi crynodeb o dystiolaeth ysgrifenedig yr holl Weinidogion i bwyllgorau craffu’r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob Prif Grŵp Gwariant yn ymateb digonol i’n hargymhelliad.**

**Hoffem weld sut ydych chi’n bwriadu darparu mwy o eglurder a thryloywder yn y ffordd y cyflwynir cyllideb y flwyddyn nesaf. Sut ydych chi’n bwriadu mynd i’r afael â beirniadaeth o’r dull presennol o gynnal Asesiadau Effaith Strategol? A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25?**

- O ran argymhelliad 12, rydym yn dal i fod am ei wrthod.

- O ran argymhelliad 11, rydym yn barod i dderbyn hyn mewn egwyddor ar y sail ein bod yn parhau i amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i broses y gyllideb a threthi fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut i gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi cynnwys rhai newidiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft

2023-24. Mae rhagor o gamau tymor hwy yn cael eu hystyried drwy barhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

- Ar hyn o bryd, yn ystod y cam cynnar hwn o broses Cyllideb 2024-25, a'r ansicrwydd sy'n ein hwynebu, nid ydym mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eglurder a thryloywder mewn perthynas â sut y bydd Cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei chyflwyno.

- Hefyd, mae'n dal i fod yn bwysig cydnabod bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn yn amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi ategu ein penderfyniadau gwario. Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ydyw, ac mae effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A. Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, roeddem wedi cyhoeddi crynodeb helaeth o holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant. Mae'r dystiolaeth honno'n rhoi cyfrif manylach o effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar grwpiau gwahanol.

- Cyhoeddir dadansoddiad dosbarthiadol diwygiedig o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25.